

AMGUEDDFA CYMRU

# Corwyntoedd

## Dal y Gwynt

amgueddfa.cymru/dysgu/ museum.wales/learn/

# Beth yw corwynt?



# Beth yw corwynt?




Leisa Williams
Uwch Swyddog Addysg,
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

# Beth yw corwynt?



*Storm fellt a tharanau bwerus sy'n cylchdroi, neu 'gorgell'.*

# Beth yw corwynt?



*Wrth i'r storm gylchdroi'n gyflymach, mae aer yn chwythu allan o'r gwaelod.*

# Beth yw corwynt?

*Mae colofn o aer sy'n troelli'n gyflym yn ymestyn o gwmwl storm daranau i'r ddaear, gan ffurfio corwynt.*



*Pan fydd y cwmwl twndis hwn yn cyffwrdd â'r ddaear, mae'n gorwynt swyddogol.*

# Beth yw corwynt?

*Dyw'r rhan fwyaf o gorwyntoedd ddim yn aros yn llonydd, maen nhw'n symud.*



# Beth yw corwynt?

*Dros amser maen nhw'n gallu tyfu. Gwelwyd y corwynt mwyaf erioed yn Oklahoma yn 2013, roedd yn 2.6 milltir ar ei draws.*



# Ble mae corwyntoedd yn digwydd?

*Mae corwyntoedd yn digwydd dros dir mewn sawl rhan o'r byd, gan gynnwys Awstralia, Ewrop, Affrica, Asia a De America.*



# Ble mae corwyntoedd yn digwydd?

*Mae chwarter corwyntoedd y byd yn digwydd ar draws canolbarth yr Unol Daleithiau. Mae'r ardal hon yn cwmpasu sawl talaith, ac mae'n cael ei alw'n 'Tornado Alley' yn Saesneg, neu'r Coridor Corwyntoedd.*



# Pam fod cymaint yn digwydd yn y Coridor Corwyntoedd?

*Oherwydd ei leoliad – yma mae aer llaith cynnes (o gyfeiriad Gwlff Mecsico) yn gwrthdaro ag aer sych ac oer (o Ganada) ac aer sych a chynnes (o fynyddoedd y Rockies).*

*Dyma'r cynhwysion angenrheidiol ar gyfer creu cymylau storm mawr sy'n cylchdroi (y gorgelloedd) sy'n gallu creu corwynt.*




Leisa Williams

# Beth am Brydain?

*Mae tua 30-35 corwynt yn y DU bob blwyddyn, er dydyn nhw braidd byth yn ddigon cryf i achosi difrod.*




© Amgueddfa Cymru

# Beth am Cymru?

*Ym mis Hydref 1913, achosodd storm ddifrifol gyfres o gorwyntoedd ar draws de orllewin Prydain, a chyrhaeddodd un y tir yng nghymoedd de Cymru.*




© Amgueddfa Cymru

# Beth am Cymru?

*Roedd llwybr y corwynt yn 11 milltir.*




© Amgueddfa Cymru

# Beth am Cymru?

*Lladdwyd tri o bobl, ac amcangyfrifwyd bod gwerth £40,000 o ddifrod, sef tua £2.5 miliwn heddiw.*

© Amgueddfa Cymru



**Fairview Terrace, Edwardsville, Abercynon**

# Beth am Cymru?

*Croesodd y storm Afon Hafren, gan gyrraedd y tir ger Efail Isaf a Llanilltud Faerdre.*



© Amgueddfa Cymru

# Beth am Cymru?

*Yna, teithiodd i'r gogledd, gan achosi cryn ddifrod yng Nghilfynydd, Abercynon ac Edwardsville.*

© Amgueddfa Cymru



© Amgueddfa Cymru



Quaker's Yard

# Tair ffaith am gorwyntoedd:

*Corwyntoedd yw'r ffurf mwyaf ffyrnig o'r holl stormydd atmosfferig.*

*Ar gyfartaledd, mae 60 o bobl yn marw bob blwyddyn yn yr Unol Daleithiau oherwydd corwyntoedd. Ar gyfartaledd mae hynna'n fwy nag un yr wythnos!*

*Digwyddodd y corwynt mwyaf angheuol erioed ym Mangladesh ym 1989, bu farw 1,300 o bobl.*







AMGUEDDFA CYMRU

I weld mwy o adnoddau dysgu, ewch i dudalennau Dysgu yr Amgueddfa drwy'r ddolen isod

**amgueddfa.cymru/dysgu/**